CYNGOR FULCHESTER
Tŷ'r Mynydd, Ffordd y Ddôl
Fulchester LL52 8PF
www.fulchester.gov.uk

# Adroddiad ymyriad sefydliad busnes bwyd/safle bwyd

## Manylion y busnes

| | |
|---|---|
| Enw gweithredwr neu berchennog y busnes bwyd | Mr Luigi Benito |
| Enw Masnachu | Parlwr Pizza a Byrgyrs Papa |
| Cyfeiriadau'r Busnes/Cangen a'r Brif Swyddfa | 34 Stryd yr Eog, Fulchester, LL52 5HI |
| Cyfeiriad cofrestredig | Ddim yn berthnasol |
| Math o fusnes | Gwerthwr bwyd symudol |

## Manylion yr ymyriad

| | |
|---|---|
| Dyddiad, amser a math o ymyriad (i'w nodi) | 30 Medi 2015 |
| O dan ba gyfraith bwyd benodol y cynhaliwyd yr ymyriad? | Rheoliadau Diogelwch a Hylendid Bwyd (Cymru) 2013<br>Rheoliad (CE) Rhif 852/2004 |
| Ardaloedd a arolygwyd/archwiliwyd (i'w nodi) | Fan |
| Enw(au) yr unigolyn(unigolion) a welwyd a/neu a gyfwelwyd | Luigi Benito |
| Dogfennau a/neu gofnodion eraill a archwiliwyd (i'w nodi) | Pecyn Bwyd mwy Diogel Busnes Gwell |
| Samplau a gymerwyd (i'w nodi) | Ddim yn berthnasol |
| Prif bwyntiau a drafodwyd yn ystod yr ymweliad (i'w nodi) | **1. Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP)** – Ar hyn o bryd, rydych chi'n defnyddio'r pecyn 'Bwyd mwy Diogel, Busnes Gwell' fel eich system rheoli diogelwch bwyd gofnodedig. Roedd pob un o'r dulliau diogel wedi'u cwblhau yn y pecyn. Cafodd nifer o staff eu cyfweld, ac roeddent wedi dangos ymwybyddiaeth dda o'r dulliau diogel a hylendid bwyd yn gyffredinol. Fodd bynnag, nid |

| | |
|---|---|
| | oeddech yn masnachu adeg fy ymweliad, ac felly nid oedd modd i mi wirio eich bod yn cydymffurfio â'r dulliau diogel yn ymarferol.<br><br>2. **Rheoli Tymheredd:** Dangosodd bob aelod o staff wybodaeth dda am dymereddau coginio ac oeri cywir. Nid oedd bwyd yn bresennol adeg yr arolygiad i mi allu gwirio rheoli tymheredd.<br><br>3. **Atal Croeshalogi:** Dangosodd bob aelod o staff wybodaeth dda am fesurau atal croeshalogi ac ni nodwyd unrhyw bryderon.<br><br>4. **Glanhau/Glanweithdra:** Mae'r cerbyd yn newydd ac roedd yr holl offer a'r gosodiadau i'w gweld mewn cyflwr perffaith. Dangosodd staff wybodaeth dda am weithdrefnau glanhau a diheintio.<br><br>5. **Hylendid Personol:** Ni nodwyd unrhyw faterion.<br><br>6. **Hyfforddiant Hylendid Bwyd:** Boddhaol adeg yr arolygiad. Dangosodd bob aelod o staff ddealltwriaeth dda o faterion hylendid bwyd.<br><br>7. **Rheoli Stoc/Diogelu Bwyd:** Dim materion.<br><br>8. **Rheoli Plâu:** Boddhaol adeg yr arolygiad.<br><br>9. **Strwythur/Cynnal a Chadw/Rheoli Gwastraff:** Ni nodwyd unrhyw broblemau.<br><br>**Arall:** Roedd y cerbyd i weld mewn cyflwr da, roedd y staff wedi'u trwytho mewn materion hylendid bwyd, ac roedd y pecyn Bwyd Mwy Diogel, Busnes Gwell wedi'i gwblhau'n llawn. |
| Camau gweithredu i'w cymryd gan yr Awdurdod Bwyd (i'w nodi) | Dim camau gweithredu |

**Camau gweithredu i'w blaenoriaethu/gwelliannau angenrheidiol**

**Noder** – Nodir camau gweithredu gofynnol er mwyn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol a chamau sy'n berthnasol i argymhellion arfer da ar wahân.

| | |
|---|---|
| Cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | Ddim yn berthnasol |
| Cydymffurfiaeth â gofynion strwythurol | Ddim yn berthnasol |
| Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli | Ddim yn bosibl gwirio gweithdrefnau ond yn dangos gwybodaeth ac agwedd dda |

**Sgôr hylendid bwyd**

| Meini prawf a gafodd eu hasesu | Sgôr ymyriad |
|---|---|
| Cydymffurfiaeth â gweithdrefnau hylendid a diogelwch bwyd | 0 |
| Cydymffurfiaeth â gofynion strwythurol | 0 |
| Hyder mewn rheolwyr/gweithdrefnau rheoli | 5 |
| **Sgôr hylendid bwyd** | 5 |

Nodiadau i weithredwr y busnes bwyd

- Os ydych o'r farn bod y sgôr a roddwyd yn anghyfiawn, gallwch ei hapelio â'r Cyngor o fewn 21 diwrnod i'ch hysbysu am y sgôr. Gweler y manylion cyswllt isod.
- Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys ffurflenni templed ar gyfer apelio, cyflwyno 'hawl i ymateb' neu gyflwyno cais am ailarolygiad at bwrpas ailsgorio ar gael ar wefan y Cyngor neu drwy food.gov.uk/sgoriau. Caiff copïau papur eu darparu ar gais.
- Caiff sgoriau o 5 eu cyhoeddi ar food.gov.uk/sgoriau y tro nesaf i'r Cyngor lanlwytho data, sydd fel arfer o fewn 14 diwrnod.
- Caiff sgoriau is na 5 eu cyhoeddi ar food.gov.uk/sgoriau ar ôl i'r cyfnod hysbysu (14 diwrnod) a'r cyfnod apelio (21 diwrnod) ddod i ben, a hynny fel arfer o fewn 35 diwrnod.

**Manylion y swyddog a gynhaliodd yr arolygiad a'r awdurdod lleol**

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd | G McGraw |
| Enw mewn llythrennau bras | GRETA MCGRAW |
| Rôl y swyddog arolygu | Swyddog Iechyd yr Amgylchedd |
| Manylion cyswllt y swyddog arolygu | 01229 253252<br>g.mccraw@fulchester.gov.uk |
| Manylion cyswllt uwch swyddog mewn achos o herio | Michael Fitzhubert<br>01229 253203 m.fitzhubert@fulchester.gov.uk |
| Dyddiad | 30.9.2015 |

Taflen Sgôr Risg Safle Bwyd
Enw’r Safle: Parlwr Pizza a Byrgyrs Papa
Gweithredwr y Busnes Bwyd: Luigi Benito
Cyfeiriad: 34 Stryd yr Eog, Fulchester Dyddiad: 30.9.2015

| | **Sgôr (Rhowch gylch)** | **Sylwadau** |
|---|---|---|
| **Perygl Posibl** | | |
| Math o fwyd a'r dull o'i drin | 40 30 10 5 | |
| Dull prosesu | 20 0 | |
| Defnyddwyr mewn perygl | 15 10 5 0 | |
| Sgôr ychwanegol | 22 0 | |
| | | |
| **Lefel Gydymffurfiaeth** | | |
| Hylendid | 25 20 15 10 5 0 | |
| Strwythur | 25 20 15 10 5 0 | |
| | | |
| **Hyder mewn Rheolwyr/ gweithdrefnau rheoli** | 30 20 10 5 0 | Ddim yn bosibl gwirio gweithdrefnau ond yn dangos gwybodaeth ac agwedd dda |
| Risg sylweddol | 20 0 | |
| **Cyfanswm sgôr** | | **40** |
| **Categori** | | **D** |
| **CSHB** | **Cyfanswm Sgôr** | **5** |
| | **Sgôr waethaf** | **5** |
| | **Sgôr CSHB** | **5** |